Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Foel Ispri, Afon Mawddach

MYNEDIAD I BAWB



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 OS 100022403
© Crown copyright and database rights 2022 OS 100022403

## Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 300 metr
- Hyd: ¼ awr
- Math o daith: Yno ac yn ôl


## Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru




Gan gychwyn o'r maes parcio, ewch heibio'r adeiladau fferm gyfagos nes i chi gyrraedd arwyddbost yn eich cyfeirio tuag at y 'New Precipice Walk'.




Ar gyrraedd yr arwyddbost, sylwch ar lwybr sy'n arwain i'r dde o'r tŷ gwyn o'ch blaen. Dilynwch y llwybr gan fynd drwy ddwy giât bren.




Fe gyrhaeddwch giât bren arall. Ewch drwy'r giât a dilyn y llwybr wrth i'r olygfa dros yr Afon Mawddach ddod i'ch golwg.




Fe gyrhaeddwch arwyddbost sy'n nodi diwedd y rhan hygyrch o lwybr Foel Ispri. Ger yr arwyddbost mae ardal lle y gallwch droi unrhyw gerbydau tebyg i 'Tramper' er mwyn dilyn y llwybr yn ôl. Dilynwch eich camau i fynd yn ôl i ddechrau'r daith.